# Yn yr ardd



Tric a Chlic



Dewch am dro o
amgylch yr ardd.



Mae blodau yn tyfu
yn yr ardd ...



blodau o bob math.





Cenhinen Pedr yw'r
blodyn melyn hwn.



Briallu ydy'r blodau hyn.





Mae yma ffrwythau
hefyd yn yr ardd ...



ffrwythau o bob math.





Afalau sy'n tyfu ar y goeden. Daw'r afalau yn barod i'w casglu i ni gael eu bwyta.



Mefus coch sydd yma.
Bydd rhain yn gwneud jam ardderchog.





Mae llysiau yn tyfu yn yr ardd ... llysiau o bob math.



Mae tatws, moron a ffa yn tyfu yn yr ardd.









Mawredd mawr!
Mae popeth yn tyfu yn yr ardd.